

Cyfarfod Pwyllgor Cyllid am Amcanion Cyffredinol,
Nos Fawrth 28ain o Ionawr 2020,
yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan , Porthmadog am 7:00

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Nia Jeffreys, Ian Jones, Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau : Cynghorwyr : Jason Humphreys, Llywelyn Rhys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Gwilym Jones.

Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at 21ain o Ionawr 2020 ynghlwm).

Adroddwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor Tref yn dderbyniol ac yn cymharu'n ffafriol efo ffigyrau Ionawr 2019. Mae gwariant mwyaf y Cyngor Tref i ddod sef ceisiadau ariannol blynyddol. Bydd unrhyw ddatblygiadau efo ariannu Clybiau Ieuentid hefyd yn wariant sylweddol. Dylai incwm y Cyngor Tref godi yn sylweddol yn dilyn arwyddo cytundeb i dderbyn 10% o gostau parcio ond ni fydd y taliad cyntaf wedi ei dderbyn tan y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y swm yma yn amlwg yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Nia Jeffreys gan ddiolch i'r Clerc am baratoi'r wybodaeth.

Praesept 2020/2021.

Adroddodd y Clerc for Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau iddynt dderbyn penderfyniad y Cyngor Tref i godi'r praesept o 3% yn 2019/2020 i £62,581.43.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

Penodi Archwiliwr Mewnol

Adroddodd y Clerc fod Luned Fôn Jones, Cyngor Gwynedd wedi derbyn y swydd fel Archwiliwr Mewnol i archwilio cyfrifon 2019/2020.

Penderfynwyd : Nodi a derbyn y wybodaeth.

Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig:

Scottish Power – costau trydan – 26.9.19 – 25.12.19	=	£26.88
Gareth Griffiths – gosod goleuadau coed Nadolig	=	£840.00

Penderfynwyd : talu'r biliau yn ôl cynnig y Cyng. Ian Jones , eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

Ceisiadau/ materion Cynllunio :

i) **C19/1202/44/RA** - cais ôl weithredol i ddiwygio amodau rhif 7 a 8 (lefelau llawr) a 9 (tirlunio a phlannu) ar ganiatâd rhif C17/0907/44/LL.

Huntroyde, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA

Penderfynwyd : Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.

ii) **C19/0768/44/LL** - dymchwel ac ail godi tŷ.

Dolwar, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY

Penderfynwyd : Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Aled Griffith, eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths.